Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Llechryd

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Llechryd yn gymuned ddysgu hapus a chynhwysol lle mae disgyblion a staff yn trin ei gilydd â gofal a charedigrwydd. Mae'r pennaeth wedi sefydlu arweinyddiaeth gadarn ac yn cynnig cyfeiriad clir i'r ysgol. Mae ganddo ddisgwyliadau uchel iawn o'i hun ac eraill. Gyda'i gilydd, mae'r pennaeth, llywodraethwyr a'r uwch arweinwyr yn adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella yn dda.

Mae staff yn darparu amgylchedd dysgu i ysgogi disgyblion yn bwrpasol, gan gynnig cymorth a chefnogaeth werthfawr iddynt. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac yn dangos balchder yn eu gwaith. Drwy ganolbwyntio ar yr ardal leol, mae athrawon yn darparu profiadau dysgu sy'n ennyn a chynnal diddordeb y disgyblion yn dda. Mae'r profiadau hyn yn galluogi llawer o ddisgyblion i ddatblygu medrau amrywiol yn gyson. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob tro'n darparu cyfleoedd digon bwriadus i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd yn adeiladol ar draws y meysydd dysgu.

At ei gilydd, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau dysgu sy'n adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol disgyblion ac yn gosod disgwyliadau uchel o'r hyn maent yn ei gyflawni. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn barod i fwynhau ac ymgolli yn eu dysgu. Er hyn, mae staff yn dueddol o or-arwain y dysgu sy'n aml yn cyfyngu ar allu disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol.

Mae gan arweinwyr a staff berthynas hynod gynhyrchiol â rhieni a'r gymuned ehangach. Maent yn cefnogi'r rhieni yn sensitif ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt ymweld â'r ysgol ac ymgysylltu â dysgu eu plant yn effeithiol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd a llythrennedd ar draws y cwricwlwm

A2 Ehangu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/01/2026